

Hysbysiad o apêl yn erbyn penderfyniad gan Weinyddwr y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol

Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon i apelio yn erbyn penderfyniad gan Weinyddwr Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol y Llywodraeth (y Cynllun). Os oes arnoch angen y ffurflen hon mewn fformat arall, gweler y nodyn ar dudalen 7.

Mae mwy o ganllawiau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon ar gael yn y llyfryn SSCS6A 'Sut i apelio yn erbyn penderfyniad gan Weinyddwr y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol'. Gallwch lawrlwytho'r llyfryn drwy fynd i'r wefan www.justice.gov.uk/Tribunals neu www.gov.uk neu gallwch gysylltu â Gweinyddwr y Cynllun (Gallagher Bassett International) ar 0131 331 9090 i ofyn iddynt anfon copi papur drwy'r post.

Ynghylch y ffurflen hon

Mae'r ffurflen hon yn eich helpu i ddarparu'r holl wybodaeth y mae ar y tribiwnlys ei hangen i gofrestru eich apêl. Bydd hefyd yn sicrhau bod eich apêl yn cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol sy'n ofynnol dan y gyfraith.

Sut i lenwi'r ffurflen hon

Defnyddiwch inc du i lenwi'r ffurflen hon a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU oni bai fod y ffurflen yn dweud wrthyich i beidio gwneud hynny .

Yr adrannau y mae'n **rhaidd eu llenwi** yw Adrannau **1, 2, 5, 6 ac 8**

- Os ydych yn apelio fel **Cynrychiolydd Personol ceisydd i'r Cynllun sydd wedi marw**, rhaid ichi **lenwi Adran 3** hefyd.
- Os ydych yn **gynrychiolydd** sy'n helpu'r ceisydd (neu'n helpu Cynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw) gyda'r apêl hon, rhaid ichi lenwi **Adran 4** hefyd
- Os ydych eisiau **bod yn bresennol mewn gwrandawriad**, rhaid ichi lenwi **Adran 7** hefyd.

Beth i'w gynnwys gyda'r ffurflen hon

Mae'n **rhaidd** ichi gynnwys copi o'r **Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad** a anfonwyd atoch gan Weinyddwr y Cynllun, sy'n dangos y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn. Nid oes angen ichi gynnwys tystiolaeth neu wybodaeth yr ydych eisoes wedi'i hanfon at Weinyddwr y Cynllun. Bydd y Gweinyddwr yn ei hanfon at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLITEM) fel rhan o'i ymateb.

Adran 1 YNGHYLCH Y PENDERFYNIAD YR YDYCH YN APELIO YN EI ERBYN

Mae'r adran hon ynghylch yr **Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad**. Hwn yw'r llythyr a anfonwyd at y ceisydd i'r Cynllun gan Weinyddwr y Cynllun yn esbonio bod adolygiad o'r penderfyniad ynghylch y cais wedi cael ei gynnal ac yn nodi canlyniad yr adolygiad hwnnw.

Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau eich bod wedi cynnwys copi o'ch **Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad** gyda'ch ffurflen apêl.

Cofiwch gynnwys copi o'r Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad gyda'r ffurflen apêl. Os na wnewch hynny, ni fydd GLITEM yn gallu cofrestru eich apêl nes byddwch yn ei ddarparu.

Ewch i Adran 2 

Adran 2 YNGHYLCH Y CEISYDD

Darparwch yr wybodaeth ganlynol ynghylch y ceisydd, os gwelwch yn dda. Y ceisydd yw'r unigolyn y gwnaed y cais i'r Cynllun yn ei enw. Bydd hyn naill ai yr unigolyn sydd â mesothelioma ymledol **NEU** ddibynnydd cymwys i unigolyn oedd â mesothelioma ymledol sydd wedi marw.

Os ydych yn Gynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw, rhowch eu manylion yma ac yna llenwch Adran 3 hefyd.

Os ydych yn cynrychioli ceisydd sy'n fyw, rhowch eu manylion yma ac yna llenwch Adran 4 hefyd. Gall cynrychiolydd fod yn rhywun sy'n gweithredu mewn swyddogaeth ffurfiol (megis rhywun sydd wedi'i benodi'n gyfreithiol i weithredu ar ran y ceisydd) neu mewn swyddogaeth anffurfiol (megis sefydliad fel elusen cefnogi dioddefwyr asbestos, neu ffrind neu berthynas).

Pwy yw'r ceisydd i'r Cynllun? yr unigolyn sydd â mesothelioma ymledol
 dibynnydd i'r unigolyn sydd â mesothelioma ymledol

Mr Mrs Miss Ms Arall (*rhowch fanylion*)

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad

Rhif ffôn cyswllt (os yn berthnasol)

Rhif Yswiriant Gwladol

llythrennau		Rhifau				llythyren
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Cod post

Os yw'r ceisydd i'r Cynllun yn ddibynnydd i'r unigolyn â mesothelioma ymledol, rhowch enw'r unigolyn â mesothelioma ymledol isod a dywedwch beth yw perthynas y dibynnydd â nhw.

Enw'r unigolyn â mesothelioma ymledol

Eich perthynas â nhw

Os ydych yn **Gynrychiolydd Personol** i'r ceisydd, ewch i Adran 3 

Os ydych yn **cynrychioli'r ceisydd**, ewch i Adran 4 

Os chi yw'r **ceisydd yn cynrychioli chi'ch hun**, ewch i Adran 5 

Adran 3 YNGHYLCH CYNRYCHIOLYDD PERSONOL Y CEISYDD

Dim ond yr unigolyn sy'n apelio fel **Cynrychiolydd Personol** ar ran ceisydd sydd wedi marw ddylai lenwi'r adran hon. Cynrychiolydd Personol yw rhywun sy'n gweinyddu ystad unigolyn ymadawedig, naill ai fel ysgutor neu fel y gweinyddwr. Am fwy o wybodaeth ynghylch Cynrychiolwyr Personol ceiswyr i'r Cynllun , gweler tudalen 10 y daflen ganllawiau SSCS6A.

Rhowch ddyddiad marwolaeth y ceisydd, os gwelwch yn dda.

<input type="text"/>	<input type="text"/>	/	<input type="text"/>	<input type="text"/>	/	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D		M	M		B	B	B	B

Mr Mrs Miss Ms Arall (rhowch fanylion)

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad

Rhif ffôn cyswllt

Cod post

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------

Os ydych yn cynrychioli Cynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw, ewch i Adran 4 

Fel arall, ewch i Adran 5 

Adran 4 YNGHYLCH CYNRYCHIOLYDD Y CEISYDD

Dim ond os oes cynrychiolydd yn gweithredu ar ran y ceisydd, neu Gynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw, y dylid llenwi'r adran hon.

Mae cynrychiolydd yn cyfeirio at rywun sy'n cynorthwyo ceisydd sy'n fyw (neu'n cynorthwyo Cynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw) gyda'i apêl. Gall cynrychiolydd fod yn gweithredu mewn swyddogaeth ffurfiol (megis rhywun sydd wedi'i benodi'n gyfreithiol i weithredu ar ran y ceisydd, fel cyfreithiwr) neu mewn swyddogaeth anffurfiol (megis sefydliad fel elusen cefnogi dioddefwyr asbestos, neu ffrind neu berthynas). Am fwy o wybodaeth ynghylch cynrychiolwyr, gweler tudalen 11 y daflen ganllawiau SSCS6A.

Mr Mrs Miss Ms *Arall (rhowch fanylion)*

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad

Rhif ffôn cyswllt

Cod post

Os ydych yn gynrychiolydd sefydliad, dywedwch wrthym isod

Enw'r sefydliad

Cyfeiriad

Cod post

Ewch i Adran 5 

Adran 5 YNGHYLCH YR APÊL

Seiliau'r apêl

Yn yr adran hon, rhaid rhoi'r manylion am seiliau'r apêl. Nid oes rhaid ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU yn yr adran hon os yw eich llawysgrifen yn glir. Os na fyddwch yn llenwi'r adran hon, bydd yn oedi'r broses o ddelio â'ch apêl ac efallai y bydd eich ffurflen apêl yn cael ei dychwelyd. Am fwy o wybodaeth am seiliau apêl, cyfeiriwch at yr adran 'Ynghylch Eich Apêl' yn y llyfryn canllaw SSCS6A.

(Os bydd angen, defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau)

A yw'ch apêl o fewn amser?

Yn ôl y gyfraith, **rhaid i'ch apêl gyrraedd y Tribiwnlys** dim hwyrach nag un mis calendr ar ôl y dyddiad yr anfonodd Gweinyddwr y Cynllun yr **Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad** atoch. Os bydd eich apêl yn cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn, bydd yn apêl hwyr a bydd angen i'r Tribiwnlys gael gwybod pam mae'n hwyr ac efallai na fydd yn bwrw ymlaen â'ch apêl.

A yw'ch apêl yn hwyr?

Ydy Os Ydy, mae'n rhaid ichi roi rhesymau isod pam mae'ch apêl yn hwyr.

Nac ydy Os Nac ydy, Ewch i Adran 6 

Os yw'ch apêl yn hwyr, mae'n rhaid ichi roi esboniad pam. Bydd y Tribiwnlys yn ystyried eich rhesymau a gall ymestyn y terfyn amser ichi. Os na fyddwch yn rhoi rhesymau pam mae'ch apêl yn hwyr, efallai y bydd eich ffurflen apêl yn cael ei hanfon yn ôl atoch. Dywedwch wrthym isod pam mae'ch apêl yn hwyr. Nid oes angen ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU.

Mae gan Weinyddwr y Cynllun yr hawl i wrthwynebu apêl hwyr. Bydd y Tribiwnlys yn ystyried unrhyw wrthwynebiad y mae'n ei wneud ac yn rhoi gwybod ichi beth yw'r canlyniad.

Ewch i Adran 6 

Adran 6 YNGHYLCH EICH DEWIS O WRANDAWIAD

Ystyrir apeliadau gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf, a fydd yn banel annibynnol. Bydd GLITEM yn gwneud trefniadau i'r apêl gael ei ystyried. Bydd disgwyl i chi ac, os yw'n briodol, eich Cynrychiolydd Personol neu gynrychiolydd, fod yn bresennol yn y gwrandawriad. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno dod i wrandawriad, gellir dod i benderfyniad ynghylch yr apêl ar sail y papurau. Dywedwch wrthym isod sut yr hoffech inni ddelio â'ch apêl.

Rwyf eisiau bod yn bresennol mewn gwrandawriad ynghylch fy apêl

Os ydych wedi ticio'r blwch hwn, ewch i Adran 7 

Rwyf eisiau i fy apêl gael ei phenderfynu ar sail y papurau

Os ydych wedi ticio'r blwch hwn, ewch i Adran 8 

Os byddwch yn newid eich meddwl ynghylch hyn, mae'n rhaid dweud wrth GLITEM cyn gynted â phosib oherwydd efallai y bydd yn rhy hwyr i newid hyn ar ôl trefnu'r gwrandawriad. Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at yr adran 'Ynghylch Eich Dewis o Wrandawriad' yn y llyfryn canllaw SSCS6A.

Adran 7 Y GWRANDAWRIAD – EICH ANGHENION A'CH GOFYNION

Nid oes angen ichi ateb y cwestiynau hyn oni bai eich bod wedi dweud wrthym yn Adran 6 eich bod eisiau bod yn bresennol mewn gwrandawriad. Os ydych wedi gofyn i gael penderfyniad ynghylch eich apêl ar sail y papurau, anwybyddwch yr adran hon ac ewch yn syth i Adran 8.

Yn yr adran hon, mae angen inni ofyn nifer o gwestiynau ichi i'n helpu i drefnu gwrandawriad addas ar eich cyfer. Byddwn yn ceisio gwneud trefniadau yn ôl eich anghenion a'r dyddiadau rydych ar gael, ond efallai na fydd yn bosib gwneud hyn bob amser. Atebwch gwestiynau 1 i 4 er mwyn inni gael yr wybodaeth y mae arnom ei hangen. Os na fyddwch yn ateb rhai o'r cwestiynau, bydd rhaid inni gysylltu â chi eto a gallai hynny achosi oedi yn eich apêl. Nid oes rhaid ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU wrth ateb y cwestiynau hyn.

Cwestiwn 1 – Pryd rydych ar gael

Cynhelir gwrandawriadau tribiwnlys o ddydd Llun i ddydd Gwener 10am tan 5pm, ac yn ein canolfannau gwrandawriadau mawr ar ddydd Sadwrn hefyd. Er mwyn ichi allu dod i'r gwrandawriad, byddwn yn ceisio trefnu amser a dyddiad sy'n cydfynd â'r adegau pan rydych ar gael. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym yma os oes unrhyw ddyddiau o'r wythnos neu amseroedd yn ystod y dydd pan **na allwch** fod yn bresennol mewn tribiwnlys neu unrhyw dyddiadau pan nad ydych ar gael oherwydd pethau fel gwyliau wedi'u trefnu eisoes neu apwyntiadau ysbyty. Dylech ystyried pa ddyddiadau rydych ar gael am y chwe mis nesaf.

Ydych chi ar gael i ddod i wrandawriad ar unrhyw adeg?

Ydw

Nac ydw

Os Nac ydw, dywedwch wrthym pa bryd na allwch fod yn bresennol yn y blwch isod.

Cwestiwn 2 – Eich anghenion

Dywedwch wrthym yma am unrhyw anghenion arbennig sydd gennych y mae angen i ni roi ystyriaeth iddynt wrth drefnu eich gwrandawriad. Gall hyn gynnwys pethau fel dolenni clyw neu fynediad ar gyfer pobl anabl.

Oes gennych chi unrhyw anghenion arbennig?

Oes

Os Oes, dywedwch wrthym am hyn yn y blwch isod.

Nac oes

Cwestiwn 3 – Arwyddwr neu gyfieithydd ac anghenion ieithyddol

Oes angen cyfieithydd neu arwyddwr arnoch i'ch helpu yn y gwrandawriad?

Oes

Os Oes, dywedwch wrthym pa iaith a thafodiaith isod

Nac oes

Iaith neu fath o ddehonglydd iaith arwyddion

Tafodiaith

Byddwn yn trefnu i gyfieithydd/dehonglydd proffesiynol fod yn bresennol yn y gwrandawriad. Cyfeiriwch at yr adran 'Llenwi ffurflen SSCS6' yn y llyfryn canllaw SSCS6A i gael mwy o wybodaeth am gyfieithwyr/dehonglwyr.

Cwestiwn 4 – Eich rybudd o wrandawriad

Fel arfer, byddwn yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ichi o ddyddiad y gwrandawriad. Os byddwch yn cytuno, gallwn hefyd roi llai na 14 diwrnod o rybudd ichi. Efallai y gellir trefnu'r gwrandawriad yn gyflymach os, er enghraifft, bydd gwrandawriad arall yn cael ei ganslo a gall eich gwrandawriad chi gymryd ei le ar fyr rybudd.

Ydych chi'n cytuno i gael llai na 14 diwrnod o rybudd o wrandawriad?

Ydw Nac ydw

Adran 8 LLOFNODI'R FFURFLEN APÊL

Rhaid llofnodi'r ffurflen apêl hon er mwyn iddi fod yn ddilys. Dywedwch ym mha swyddogaeth yr ydych yn llofnodi'r ffurflen hon.

- Fi yw'r ceisydd yn fy nghynrychioli fy hun
- Fi yw Cynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw ac rwyf wedi llenwi Adran 3
- Fi yw cynrychiolydd y ceisydd (neu gynrychiolydd Cynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw) ac rwyf wedi rhoi fy manylion yn Adran 4. Rhaid i'r **ceisydd** (neu Gynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw) lofnodi'r adran hon. Bydd y llofnod hwn yn rhoi awdurdod i GLITEM ymdrin â chi fel unigolyn yn gweithredu ar ran y ceisydd (neu ar ran Cynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw).

Llofnod

Dyddiad

<input type="text"/>	<input type="text"/>	/	<input type="text"/>	<input type="text"/>	/	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D		M	M		B	B	B	B

Enw

BETH I'W WNEUD NAWR

Mae angen ichi anfon y **ffurflen apêl** hon a chopi o'r **Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad** at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr, anfonwch eich apêl i:

HMCTS SSCS Appeals Centre
PO Box 1203
BRADFORD
BD1 9WP

Os ydych yn byw yn yr Alban, anfonwch eich apêl i:

HMCTS SSCS Appeals Centre
PO Box 27080
GLASGOW
G2 9HQ

Byddwn yn anfon llythyr atoch i ddweud wrthyfch bod eich apêl wedi ein cyrraedd ac yn esbonio beth fydd yn digwydd nesaf.

RHESTR WIRIO

Efallai y bydd y rhestr wirio hon yn eich helpu i sicrhau eich bod wedi rhoi'r holl wybodaeth y mae arnom ei hangen.

- Rwyf wedi cynnwys copi o'r **Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad (Adran 1)**.
- Rwyf wedi dweud beth yw sail fy apêl (**Adran 5**)
- Rwyf wedi dewis pa fath o wrandawriad rwyf eisiau (**Adran 6**)
- Rwyf i neu fy nghynrychiolydd wedi llofnodi fy ffurflen apêl (**Adran 8**)

Fformatiau eraill

Os oes arnoch angen y ffurflen hon mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras, ffoniwch 0300 123 1142 (llinell gymorth Saesneg) 0300 303 5170 (llinell gymorth Gymraeg) os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr, a 0300 790 6234 os ydych yn byw yn Yr Alban.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn prosesu gwybodaeth bersonol andanoch chi yng nghyd-destun achosion tribiwnlys.

I gael manylion am y safonau rydym yn eu dilyn wrth brosesu'ch data, ewch i: <https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter>

I gael copi papur o'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ffoniwch 0300 123 1024 Ffôn testun 18001 0300 123 1024. Os ydych yn ffonio o'r Alban, ffoniwch 0300 790 6234 Ffôn Testun 18001 0300 790 6234.